At Benaethiaid holl ysgolion Uwchradd ac Arbennig

Haf 2017

Gofynion Statudol Addysg Grefyddol

Annwyl Bennaeth

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at ofynion statudol Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth. Wrth i'r adolygiad o'r cwricwlwm gael ei gynnal credir bod rhai ysgolion yn ddryslyd o ran statws maes llafur a gytunwyd mewn ysgolion ac anfonir y llythyr hwn i amlinellu gofynion statudol Addysg Grefyddol i ysgolion.

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac felly nid yw'n dod o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yn cael ei bennu'n lleol gan yr ALl a'i SACRE. Mae hyn yn golygu bod yna ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol ddarparu Addysg Grefyddol yn unol â maes llafur y cytunwyd arno a monitro bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol. O safbwynt sefyllfa maes llafur y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol cafodd ei ail-fabwysiadu yn 2013 ac felly mae'r maes llafur presennol yn parhau gyda dealltwriaeth y bydd y maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y bydd ffurf cwricwlwm newydd Donaldson wedi'i ddiffinio. Byddai angen newid mewn deddfwriaeth ar gyfer darparu Addysg Grefyddol yn ôl maes llafur y cytunwyd arno i gael ei ddirymu.

Roedd adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Disglair – Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesiad yng Nghymru* yn argymell *y dylai addysg grefyddol ffurfio rhan o'r Maes Dyniaethau Dysgu a Phrofiad, a dylai barhau'n ofyniad cwricwlwm statudol o'r oed derbyn.*

Mae SACRE yn ymwybodol bod yr ysgolion arloesol nawr yn cyfarfod er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd. Hyd nes bydd manylion yr AOLE wedi eu ffurfio ac adolygiad o'r maes llafur y cytunwyd arno yn cael ei gynnal yna mae SACRE yn dymuno sicrhau bod ysgolion yn deall bod cynnwys rhaglenni astudio'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol yn brif ofyniad statudol.

Amgaeaf gopi o'r maes llafur presennol y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol lle gallwch weld y rhaglenni astudio ar gyfer pob cam allweddol yn yr ysgol uwchradd ar dudalennau 27-29.

Mae gan SACRE ddiddordeb arbennig mewn darparu **Addysg Grefyddol CA4.** Mae rhai ysgolion yn ymddangos yn ddryslyd o safbwynt gofynion statudol CA4 a hoffem dynnu eich sylw at y rhaglen astudio a welir ar dudalennau 27-29. Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn darparu Addysg Grefyddol statudol drwy naill ai ddilyn Cwrs Byr TGAU neu Gwrs Llawn TGAU neu gyfuniad o'r ddau gwrs. Mae SACRE yn dymuno eich hysbysu y byddai hyn yn cyflawni gofynion statudol cyn belled â bod **pob** disgybl yn derbyn addysg grefyddol pa un a ydynt yn cael eu cynnwys ar gyfer achrediad ai peidio.

Mae rhai ysgolion yn darparu Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 o fewn y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn 2016, cynhaliodd Cymdeithas SACRE Cymru arolwg o effaith Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar addysg grefyddol mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae SACRE yn deall bod rhai ysgolion yn credu bod cynnwys yr elfen Dinasyddiaeth Fyd-eang o'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ddigonol ar gyfer gofynion Addysg Grefyddol. Mae SACRE yn dymuno sicrhau bod ysgolion yn deall na fydd yr uned Dinasyddiaeth Fyd-eang yn unig yn ddigon ar gyfer pob agwedd o raglenni astudio'r maes llafur y cytunwyd arnynt fel yr amlinellwyd ar dudalennau 30-31 o'r maes llafur y cytunwyd arno. Roedd arolwg WASACRE (2016) yn dangos mewn rhai achosion bod gan Gymhwyster Bagloriaeth Cymru effaith gadarnhaol pan oedd ysgolion yn cynyddu'r amser ar gyfer Addysg Grefyddol o fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru er mwyn cynnwys pob agwedd o'r maes llafur y cytunwyd arno. Mae'n rhaid mesur hynny yn erbyn yr ysgolion hynny wnaeth ddweud bod cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael effaith negyddol ar Addysg Grefyddol fel colli achrediad Cwrs Byr, dros ddefnyddio athrawon nad oedd yn arbenigo mewn addysgu Addysg Grefyddol a sgiliau penodol i bwnc Addysg Grefyddol yn cael eu haberthu ar gyfer sgiliau mwy cyffredinol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae SACRE yn gofyn i ysgolion gadarnhau eu bod wedi derbyn y wybodaeth hon drwy gwblhau'r pro forma atodedig a'i ddychwelyd i Glerc SACRE. Mae'r pro-forma yn canolbwyntio ar gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 4 yn arbennig oherwydd mai dyma'r maes a nodwyd sy'n achosi'r pryder mwyaf i athrawon

Addysg Grefyddol a hefyd nodwyd fel codi materion yn arolwg WASACRE. Mae ysgolion yn darparu'r wybodaeth hon yn galluogi'r ALl a'i SACRE i gyflawni ei rôl monitro Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm a chael sicrwydd bod gofynion statudol yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol yn cael ei ddiwallu.

Mae SACRE yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn ddiffuant

(Cynrychiolydd ALl ar SACRE)

Enw'r Ysgol _____

Enw'r aelod o staff sy'n llenwi'r pro forma _____

Lleoliad yn yr ysgol _____

Rwyf wedi darllen a deall y gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol ym mhob cam allweddol **YDW/NAC YDW (rhowch gylch)**

Sut mae Astudiaethau Crefyddol/Addysg Grefyddol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 4?

Rhowch √ i BOB sylw perthnasol isod:

☐ Mae pob/bron pob disgybl yn derbyn Addysg Grefyddol yn ôl y maes llafur y cytunwyd arno
Sawl dosbarth? _____

☐Mae pob/bron pob disgybl yn dilyn cymhwyster TGAU addysg grefyddol cwrs llawn
Sawl dosbarth? _____

☐Mae pob/bron pob disgybl yn dilyn cymhwyster cwrs byr addysg grefyddol
Sawl dosbarth? _____

☐Mae pob/bron pob disgybl yn derbyn Addysg Grefyddol statudol yn ystod gwersi Bagloriaeth Cymru
Sawl dosbarth? _____

☐Mae rhai disgyblion yn dilyn cymhwyster cwrs llawn TGAU addysg grefyddol
Sawl dosbarth? _____

☐Mae rhai disgyblion yn dilyn cymhwyster cwrs byr addysg grefyddol
Sawl dosbarth? _____

☐Mae rhai disgyblion yn derbyn Addysg Grefyddol statudol yn ystod gwersi Bagloriaeth Cymru
Sawl dosbarth? _____

Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

_____

Allwch chi ddisgrifio sut mae Cyfnod Allweddol 4 yn cael ei amserlennu: (e.e. un wers wythnosol 60 munud)

_____

Pwy sy'n darparu gwersi Astudiaethau Crefyddol/Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 4?

☐ Pob disgybl Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu haddysgu gan athrawon Astudiaethau Crefyddol arbenigol

☐ Y rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu haddysgu gan athrawon Astudiaethau Crefyddol arbenigol

☐ Ambell ddisgybl Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu haddysgu gan athrawon Astudiaethau Crefyddol arbenigol

☐ Dim disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu haddysgu gan athrawon Astudiaethau Crefyddol arbenigol

Unrhyw sylwadau pellach:

Rydym yn casglu gwybodaeth am y manylebau Astudiaethau Crefyddol newydd yng Nghyfnod Allweddol 4, os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr arholiadau yr hoffech i SACRE wybod amdanynt, allwch chi eu cynnwys yma os gwelwch yn dda.

Dychwelwch at: Phil Lord philiplord@gwegogledd.cymru